**Crynodeb o lythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Ganghellor y Trysorlys – 17 Medi 2024**

- Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Ganghellor y Trysorlys yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb y DU ar gyfer yr Hydref a aiff ei chyhoeddi 30 Hydref.

- Yn y llythyr:

    - Nododd y sefyllfa anodd yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i hetifeddu a mynegi awydd i gydweithio i ailadeiladu sylfeini economaidd.

    - Nododd bwysigrwydd tyfu'r economi i sicrhau buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig i fynd i'r afael ag amseroedd aros y GIG a gweithio ar ein huchelgais cyffredin o fynd i'r afael â thlodi.

    - Tynnodd sylw at gryfderau Cymru ym maes entrepreneuriaeth, gweithgynhyrchu, seilwaith ac ynni adnewyddadwy, lle y gall Cymru wneud cyfraniad sylweddol at sicrhau twf economaidd a nododd ddiwydiannau'r dyfodol sy'n dibynnu ar fuddsoddiad a chyllid sbarduno mewn partneriaeth â diwydiant a'r byd academaidd.

    - Croesawodd y ffaith bod swm cychwynnol o £13.5m wedi'i ryddhau o'r £80m a ymrwymwyd i gefnogi proses bontio Tata Steel a thynnodd sylw at yr angen i roi cymorth tymor hwy ar waith i liniaru effaith y newid ar yr economi leol.

    - Tynnodd sylw at yr angen am gymorth polisi gan Lywodraeth y DU mewn meysydd allweddol a gedwir yn ôl, gan gynnwys trafnidiaeth carbon heb biblinell, datblygu'r rhwydwaith hydrogen, a chynnig effeithiol gan y farchnad ar gyfer gwynt ar y môr.

    - Croesawodd ymrwymiad Prif Weinidog blaenorol y DU y byddai Llywodraeth Lafur y DU yn rhoi'r cyfrifoldeb dros y broses o wneud penderfyniadau ar gyllid ar gyfer cronfeydd ôl-UE yn ôl i Lywodraeth Cymru gan nodi pwysigrwydd sicrhau cyllid newydd ar gyfer ffermio yn lle'r cyllid blaenorol a chodiad yn y cyllid hwnnw, a dileu trefniadau clustnodi.

    - Tynnodd sylw at y materion diogelwch sy'n gysylltiedig â thomenni glo nas defnyddir yng Nghymru a chynnig rhaglen fuddsoddi ar y cyd â Llywodraeth y DU i sicrhau bod tomenni glo nas defnyddir yn ddiogel ac yn darparu trefn reoleiddio fodern.

    - Pwysleisiodd bwysigrwydd dull teg o gymhwyso Barnett mewn perthynas â chyllid rheilffyrdd, gan gynnwys adolygiad o gymaroldeb â phrosesau'r Adran Drafnidiaeth a'r Llif Prosiectau o Welliannau i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd, a chydweithio i ddatblygu Llif Prosiectau o fuddsoddiad mewn seilwaith rheilffyrdd ledled Cymru, a chytuno ar sut i drin Rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) yn fformiwla Barnett.